

Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer

Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

2014 - 2017



Yn ardal Heddlu De Cymru rhwng 2012 a 2013:

Roedd **27,537** o ddigwyddiadau
cam-drin domestig

Roedd **6,588** o droseddau
cysylltiedig â cham-drin domestig

Roedd **5,091** o ddioddefwyr
troseddu cysylltiedig â
cham-drin domestig

Roedd oddeutu **traean** o'r holl droseddu
'trais gydag anaf' yn gysylltiedig â
cham-drin domestig

Clywyd cyfanswm o **2,242**
o Gynadleddau Asesu Risg
Amlasiantaethol (MARAC)
risg uchel

Roedd cyfanswm o **2,869** o
blant yn ymwneud ag
achosion MARAC risg uchel

Roedd **881** o droseddau
rhywiol difrifol cofnodedig

Roedd **53** o ddigwyddiadau
trais er anrhydedd cofnodedig

Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer
**Mynd i'r Afael â Thrais yn
Erbyn Menywod a Merched**
2014 - 2017



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru



Rhagair

Mae 'Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched' yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun yr Heddlu a Lleihau Troseddu De Cymru. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymroi i sicrhau bod mwy o gynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn, gan ychwanegu at y gwaith cadarnhaol a rhagweithiol y mae Heddlu De Cymru eisoes wedi bod yn ei wneud yn y blynyddoedd diweddar.

Er mwyn mynd i'r afael o ddifrif â'r gyfran arwyddocaol hon o droseddu treisgar, rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig ystyried cyddestun ehangach asiantaethau partner. Mae nifer o asiantaethau statudol a gwirfoddol yn Ne Cymru yn ymwneud â mynd i'r afael â cham-drin domestig a'r amrywiol fathau o drais yn erbyn menywod a merched. Felly, mae'n hanfodol i'r heddlu weithio'n gadarnhaol mewn partneriaeth â'r asiantaethau hyn ac iddynt oll weithio gyda'i gilydd i gefnogi dioddefwyr.

Yn 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth 'Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' yng Nghymru. Rydym yn ymroi i sicrhau ein bod ni'n gallu paratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, a byddwn yn gweithio i ymsefydlu diwylliant o ddeall trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Heddlu De Cymru.

Mae ein hadolygiad thematig cynhwysfawr o Drais yn Erbyn Menywod a Merched yn ardal Heddlu De Cymru wedi arwain at ddatblygu'r cynllun ar y cyd hwn. Rydym yn awyddus i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun yn gadarnhaol er mwyn gweithio tuag at atal trais yn erbyn menywod a merched a rhoi'r ymateb gorau posibl i ddioddefwyr.



Alun Michael
**Y Gwir Anrh.
Alun Michael YH**
Comisiynydd yr
Heddlu a Throseddu



Sophie Howe
Sophie Howe
Dirprwy
Gomisiynydd yr
Heddlu a Throseddu



Peter Vaughan
Peter Vaughan
Prif Gwnstabl
Heddlu De Cymru



Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

4 Adolygiad Thematig 'Trais yn Erbyn Menywod a Merched' Heddlu De Cymru

5 Ymagwedd Heddlu De Cymru at Drais yn Erbyn Menywod a Merched

Yr Uned Amddiffyn y Cyhoedd

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Gweithio mewn Partneriaeth a Rhannu Gwybodaeth

Casglu Data

Trais 'Er Anrhydedd', Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

9 Data Heddlu De Cymru

12 Ein Camau Gweithredu a Chanlyniadau

13 Gwella Adnabod ac Ymyrryd

Y Materion Allweddol

Ein Camau Gweithredu

Annog adrodd ac ymyrryd yn gynnar yn y Sector Iechyd

Rhannu Gwybodaeth

Gwaith Amlasiantaethol

Annog adrodd am faterion 'cudd' ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Cyswllt â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

18 Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Y Materion Allweddol

Cydlynu gwasanaethau

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Hyfforddi Swyddogion a Staff

Bodlonrwydd Dioddefwyr

Ein Camau Gweithredu

Mapio Gwasanaethau

Prosesau Atgyfeirio Dioddefwyr

Hyfforddi Swyddogion a Staff i Ganolbwyntio ar y Dioddefwr

Mesur Bodlonrwydd Dioddefwyr

Monitro Strategol

22 Annog Atal

Y Materion Allweddol

Addysg ac Ymwybyddiaeth

Cyflawnwyr

Ein Camau Gweithredu

Addysg ac Ymwybyddiaeth

Rhaglenni ar gyfer Cyflawnwyr

25 Mesurau Llwyddiant

27 Camau Gweithredu a Monitro

27 Casgliad

28 Atodiad A

Gwella Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar

Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Annog Atal


Cyflwyniad

Mae Heddlu De Cymru yn darparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl, gan gwmpasu 42% o boblogaeth Cymru. Hwn yw'r 8fed heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae ardal yr heddlu a'i bedair Uned Reoli Sylfaenol yn ymestyn dros saith ardal awdurdod lleol – Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Mae'r ardal yn cynnwys 63 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ac yn wir Ewrop), a chydabyddwn y berthynas rhwng ardaloedd difreintiedig a mynychder cam-drin domestig. Mae Heddlu De Cymru yn ymdrin â mwy na 27,000 o ddigwyddiadau cam-drin domestig y flwyddyn ac mae 'Trais gydag anaf', yng nghyd-destun cam-drin domestig, yn cyfrif am oddeutu traean o'r holl droseddu treisgar yn Ne Cymru.

Dyma'r digwyddiadau rydym ni'n gwybod amdanynt yn unig. Rydym yn sylweddoli bod llawer mwy o ddigwyddiadau a throseddau nad ydynt byth yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Mae data diweddar gan y Swyddfa Gartref ar gyfer 2011 - 2012 yn dangos mai Cymru a Dwyrain Canolbarth Lloegr oedd yr ardaloedd daearyddol lle'r oedd menywod yn fwyaf tebygol o ddioddef cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, ac roedd nifer y digwyddiadau yn yr ardaloedd hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru a Lloegr.

Felly, ar ran dioddefwyr, goroeswyr a dioddefwyr posibl pob math o drais yn erbyn menywod a merched yn Ne Cymru, byddwn yn gweithio i adnabod a mynd i'r afael â'r gamdriniaeth a'r trais, cefnogi dioddefwyr yn well, ac atal trais yn erbyn menywod a merched rhag gwaethygu yn y dyfodol.



Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi diffinio trais yn erbyn menywod fel 'unrhyw weithred o drais seiliedig ar ryw sy'n arwain at, neu sy'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu mympwyol o ryddid, pa un a yw'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu breifat'. Fe allai gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol, gan gynnwys ymosodiad rhywiol ac aflonyddu rhywiol
- Arferion niweidiol (gan gynnwys priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, a throseddau 'er anrhydedd')

Er y cydnabyddir bod y mathau hyn o gamdriniaeth a thrais yn gallu effeithio ar ddynion a bechgyn hefyd, effeithir ar fenywod yn anghymesur o hyd o ran nifer y digwyddiadau a brofant a lefel eu difrifoldeb.

Yn ôl yr Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr, rhwng 2012 a 2013, amcangyfrifwyd bod 1.2 filiwn o ddioddefwyr benywaidd cam-drin domestig a 700,000 o ddioddefwyr gwrywaidd¹, a bod o leiaf 29.9% o fenywod a 17% o ddynion yng Nghymru a Lloegr wedi'i brofi ar ryw adeg². Fodd bynnag, mae menywod yn llawer mwy tebygol o fod yn ddioddefwyr risg uchel na dynion³, ac mae menywod yn cynrychioli oddeutu 89% o'r holl rai sydd wedi profi 4 digwyddiad neu fwy o drais domestig⁴. Ar gyfartaledd, caiff 2 fenyw yr wythnos eu lladd gan eu partner gwrywaidd presennol neu flaenorol⁵ a bydd bron i 1 o bob 5 o fenywod wedi profi rhyw fath o drais rhywiol ers iddynt fod yn 16 oed⁶.

Mae'r ystadegau hyn yn amlygu mynychder y trais y mae menywod a merched yn ei wynebu bob blwyddyn a'r angen dybryd i fynd i'r afael ag ef.

Diffiniad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) o gam-drin domestig yw:

'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o deulu, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau o deulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gamdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol ac emosiynol'.

Mae'r diffiniad hwn, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys trais 'er anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod, ac mae'n amlwg na chyfyngir dioddefwyr i un rhyw neu grŵp ethnig.

Mae'r diffiniad hwn o gam-drin domestig yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad domestig yn y cartref, rhwng unrhyw aelodau o deulu. Fodd bynnag, yng nghyd-destun 'trais yn erbyn menywod a merched', cydnabyddir bod y mathau mwyaf difrifol ac ailadroddus o gam-drin domestig yn digwydd rhwng partneriaid agos, gan ei fod yn fath o gam-drin sy'n seiliedig ar bŵer a rheoli, gyda brawychu'n cael ei ddefnyddio'n fynych ac yn barhaus i reoli partner. Mae'r ffaith fod dwy fenyw yr wythnos ar gyfartaledd yn cael eu lladd gan bartner neu gyn bartner gwrywaidd yn dangos pa mor bwysig ydyw i fynd i'r afael â thrais gan bartner agos. Felly, yn y cynllun hwn, ystyrir cam-drin domestig gyda cham-drin gan bartner agos mewn golwg.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn derbyn bod yr ymagwedd 'trais yn erbyn menywod a merched' yn gofyn am newid meddylfryd plismona, lle y mae diffiniad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu'n cael ei ddefnyddio, ac y mae'n rhaid iddo barhau i

gael ei ddefnyddio, trwy gydol proses weithredol cam-drin domestig. Mae'n rhaid darparu gwasanaeth plismona'n deg i bawb, ac mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys darparu gwasanaeth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig. Nid oes unrhyw ddisgwyliad y dylai Heddlu De Cymru ddarparu gwasanaeth llai na chadarnhaol i ddioddefwyr gwrywaidd neu aelodau eraill o deulu sy'n cael eu cam-drin.

Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar fenywod a merched yn y cynllun hwn yn fwriadol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli ar gyfer menywod a merched sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er bod 'mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched' yn flaenoriaeth sy'n cydfynd â'r agenda ehangach ar gyfer lleihau trais yn Heddlu De Cymru, mae canolbwyntio arno fel maes gwaith penodol yn ein galluogi i fynd i'r afael ag effaith anghymesur y math hwn o drais ar fenywod a merched, y tan-adrodd sy'n bodoli, yr angen i wneud dioddefwyr yn fwy hyderus i adrodd y materion hyn i'r heddlu, a'r angen i bartneriaid gydweithio er mwyn sicrhau ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) Focus on violent crime and sexual offences 2012/13, Pennod 4: Intimate Personal Violence and partner abuse

² Smith, K., Osborne, S., Lau, I. et al (2012) Homicides, Firearm offences and intimate violence 2010/11: Supplementary Vol 2 to Crime in England and Wales 2010/11. Llundain.

³ Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (2014) Everyone's Business: Improving the police response to Domestic Abuse.

⁴ Walby, S. ac Allen, J. (2004) Home Office Research Study 276: Domestic Violence, Sexual Assault and Stalking: Findings from the British Crime Survey. Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau'r Swyddfa Gartref.

⁵ Coleman ac Osborne (2010); Povey (2005); Y Swyddfa Gartref, 1999, Yr Adran Iechyd, 2005.

⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) Focus on violent crime and sexual offences 2012/13, Chapter 4: Intimate Personal Violence and partner abuse

Adolygiad Thematig 'Trais yn Erbyn Menywod a Merched' Heddlu De Cymru

Yn 2013, cwblhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru adolygiad thematig o Drais yn Erbyn Menywod a Merched yn ne Cymru, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Roedd yr adolygiad cynhwysfawr hwn o ymateb yr heddlu a phartneriaid i gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched, yn archwilio'r sefyllfa bresennol, y sefyllfa flaenorol a'r hyn y dylem anelu ato er mwyn gwella ymateb yr heddlu a phartneriaid i'r agenda hon yn ne Cymru. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddi'r data a'r dystiolaeth a oedd ar gael, ynghyd ag ymgynghori ac ymgysylltu â

dioddefwyr, ymarferwyr, arbenigwyr academiaidd ac arweinwyr strategol yn y maes hwn.

Mae'r canfyddiadau wedi arwain at ddatblygu'r cynllun hwn, sy'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn ne Cymru.



Ymagwedd Heddlu De Cymru at Drais yn Erbyn Menywod a Merched

Yr Uned Amddiffyn y Cyhoedd


Mae Uned Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu De Cymru yn monitro achosion cam-drin domestig a thrais rhywiol yn strategol ar draws yr heddlu. Ceir adrannau Amddiffyn y Cyhoedd ym mhob un o'r pedair Uned Reoli Sylfaenol hefyd, sy'n ymdrin ag achosion a darparu cymorth gweithredol i ddioddefwyr. Mae Heddlu De Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar mewn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, cynyddu nifer y swyddogion Amddiffyn y Cyhoedd a recriwtio aseswyr risg cam-drin domestig arbenigol..

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae gan Heddlu De Cymru Bolisi Gweithredu Cadarnhaol mewn perthynas â cham-drin domestig. Mae hyn yn golygu, ym mhob achos, bod yn rhaid i swyddogion gymryd camau cadarn i gynorthwyo dioddefwyr, gan drin pob achos ag empathi, cynnig cyngor ymarferol a sicrhau y gwneir atgyfeiriadau priodol i bartneriaid perthnasol.

Mae'n rhaid i swyddogion ystyried y digwyddiadau'n gyfannol, gan ganolbwyntio eu hymdrechion o'r dechrau ar ddiogelu'r dioddefwr a phobl eraill sy'n agored i niwed, fel plant, ac yna casglu tystiolaeth er mwyn cyhuddo o drosedd a datblygu achos erlyniad nad yw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar ddatganiad y dioddefwr. Mae'n golygu bod yn rhaid ymchwilio'n drylwyr i bob achos o gam-drin domestig a bod angen gweithredu ar bob cam o ymateb yr heddlu. Mae data diweddar Heddlu De Cymru yn dangos bod 96 o arestiadau wedi'u gwneud am bob 100 o droseddau cam-drin domestig a gofnodwyd yn ardal Heddlu De Cymru. Mae hyn ymhell uwchlaw'r gyfradd gyfartalog ar gyfer y rhan fwyaf o heddluoedd ac yn amlygu natur ragweithiol yr ymagwedd gweithredu cadarnhaol. Canmolwyd y cyfraddau cadarnhaol hyn yn ddiweddar gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC).

Mae Heddlu De Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi swyddogion a staff ar gam-drin domestig. Mae hyn nid yn unig wedi cynnwys hyfforddiant ar asesu risg ac ymateb, ond hefyd hyfforddiant cynhwysfawr i dderbynwyr galwadau sy'n gweithio yn y



Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn iddynt allu deall y bygythiad, y niwed a'r risg tebygol i'r galwr. Caiff pob digwyddiad cam-drin domestig ei ddosbarthu'n ymateb gradd 1 neu radd 2 pan dderbynnir galwad, sy'n golygu bod angen i swyddogion ymateb ar unwaith (gradd 1) neu o fewn awr (gradd 2).

O ran trais rhywiol, mae gan Heddlu De Cymru dîm o Swyddogion Cyswllt Trais Rhywiol sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ymdrin â dioddefwyr troseddu rhywiol ar y pwynt cyswllt cyntaf. Maent yn ymchwilio i droseddau rhywiol a'u datrys, ac yn diogelu holl ddioddefwyr trosedd rhywiol. Gallant ddarparu ymagwedd gyson a sensitif i bob ymchwiliad trais rhywiol.

Mae'r data diweddaraf gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn dangos mai Heddlu De Cymru yw'r trydydd heddlu gorau yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd o ran cyfraddau datrysiad â sancsiwn ar gyfer treisio oedolyn. Mae'r cyfraddau datrysiad â sancsiwn ar gyfer treisio plentyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn Heddlu De Cymru hefyd. Mae'r heddlu'n gweithio'n rhagweithiol i gyflawni'r canlyniadau hyn ac mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud.

Gweithio mewn Partneriaeth a Rhannu Gwybodaeth

Mae Heddlu De Cymru yn ymroi i rannu gwybodaeth â phartneriaid er mwyn sicrhau bod asesiad risg llawn yn cael ei gynnal o ddioddefwyr a'u bod yn cael eu diogelu, trwy ystyried unrhyw wybodaeth a allai fod gan bartneriaid. Ar ôl y broses asesu risg, mae'r heddlu'n ymwneud yn llawn â'r broses Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) ar gyfer achosion risg uchel. Mae'r broses hon yn dwyn ynghyd partneriaid megis

yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r sector gwirfoddol i drafod achosion cam-drin domestig risg uchel unigol, gan neilltuo camau ar draws yr asiantaethau er mwyn sicrhau diogelwch y dioddefwr.

Rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2013, clywyd cyfanswm o 2,242 o achosion mewn cyfarfodydd MARAC ar draws ardal yr heddlu. Daeth cyfanswm o 70% o'r atgyfeiriadau hyn o'r heddlu, a daeth y 30% arall o atgyfeiriadau o asiantaethau partner. Rydym yn cydnabod bod llawer o ddioddefwyr ond yn debygol o alw'r heddlu pan ddaw'r sefyllfa i'r pen, ac felly hoffem weld cynnydd mewn atgyfeiriadau gan asiantaethau partner eraill, a fyddai'n dangos ymdrechion i adnabod cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched yn gynharach.

Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau ymrwymiad partneriaid i sefydlu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH). Bydd hyn yn dod â phartneriaid at ei gilydd mewn lleoliad parhaol i ddarparu ymagwedd fwy effeithlon, cydlynol a chynhwysfawr at ddiogelu dioddefwyr agored i niwed, gan gynnwys plant mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig. Bydd y ganolfan yn cael ei threialu yn Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf), gyda'r nod o'i lansio yn ystod 2014.

Bydd y broses bartneriaeth a rhannu gwybodaeth hon yn ceisio ategu a gwella'r llwybrau diogelu ac atgyfeirio sefydledig sydd eisoes yn bodoli yn sgil y ffaith bod Heddlu De Cymru yn rhannu ffurflenni asesu risg cam-drin domestig ag asiantaethau eraill.

Mae'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARCs) yn ne Cymru yn galluogi partneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth priodol i

ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol, hyd yn oed pan nad yw dioddefwyr yn dymuno adrodd i'r heddlu. Pan fydd dioddefwyr yn adrodd i'r heddlu, mae swyddogion Heddlu De Cymru yn gallu atgyfeirio pob dioddefwr trais rhywiol i SARC lle y gall gael ymateb sensitif.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn gweithio'n agos ag ysgolion i addysgu pobl ifanc am gam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae ymgysylltu â'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi helpu i ddatblygu cynlluniau gwersi ar berthnasoedd iach, cydsyniad rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant i'w cyflwyno i ysgolion gan Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu. Mae gwybodaeth am berthnasoedd mwy diogel a cham-drin domestig hefyd wedi'i chynnwys ar wefan School Beat, sydd ar gael i blant, rhieni ac athrawon. Yn ogystal, mae Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu yn cyflwyno sesiynau gwasanaeth boreol ar faterion megis cydsyniad rhywiol, ymosodiad rhywiol a thrais.

Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi gweithio gydag ysgolion ar fater 'rhyw-decstio', gyda gwersi'n cael eu cyflwyno ar y pwnc hwn yn 2014. Mae'r sesiynau llwyddiannus mewn ysgolion wedi esbonio'r diffiniad o gydsyniad a chanlyniadau posibl rhyw-decstio o safbwynt cofnod troseddol. Un o ganlyniadau pwysig y gwaith gydag ysgolion fu'r cynnydd yn nifer y datgeliadau a wnaed gan blant i swyddogion a staff am ymddygiad amhriodol.

Casglu Data

Cydnabu Heddlu De Cymru yn flaenorol y gellid gwneud mwy i sefydlu ymagwedd datrys problem at fynd i'r afael â throseddau trais yn erbyn menywod a merched, yn enwedig cam-drin domestig. Un o'r datblygiadau allweddol yn hyn o beth fu creu 'Offeryn Gwybodaeth Reoli Cam-drin Domestig' gan Heddlu De Cymru. Mae'r

dechnoleg hon yn golygu y gellir cynhyrchu adroddiad dyddiol o'r wybodaeth yng nghronfa ddata Heddlu De Cymru sy'n amlygu'r holl ddigwyddiadau cam-drin domestig bob bore. Caiff y wybodaeth yn yr offeryn ei hidlo'n categorïau a rennir yn ôl ardaloedd daearyddol a chategorïau dioddefwyr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws gweld trais a cham-drin domestig yn batrwm o reoli gorfodol, yn hytrach na chyfres o ddigwyddiadau ar wahân. Mae'r offeryn hefyd yn golygu bod modd adnabod dioddefwyr a chyflawnwyr mynych yn rhwydd bob dydd.

Trais 'Er Anrhydedd', Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Mae'r portffolio ar gyfer Trais er Anrhydedd, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cael ei ddal yn adran Cyfiawnder a Phartneriaethau Heddlu De Cymru, ac mae gennym ni swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol yn y maes hwn. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal ar y materion hyn ar draws yr heddlu ers rhai blynyddoedd, ac yn 2013 gweithiodd Heddlu De Cymru mewn partneriaeth â sefydliad a berchir yn genedlaethol yn y maes i greu cwrs hyfforddi tri diwrnod, a ddarparwyd i swyddogion dethol yn Heddlu De Cymru.


Lluniwyd y cwrs i alluogi swyddogion i ddeall y cysyniad o drais er anrhydedd a chamdriniaeth yn sgil priodas dan orfod, a'r cymhellion drostynt. Roedd hefyd yn amlinellu sut i adnabod digwyddiadau a dioddefwyr a darparu ymateb, sut i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr, a sut i gynnal asesiadau risg a chynllunio a sicrhau diogelwch.

Mae'r hyfforddiant wedi arwain at gynnydd yn nifer y swyddogion sy'n gallu adnabod achosion trais er anrhydedd a phriodas dan

orfod a chynnal asesiadau risg ar eu cyfer, yn ogystal â chynyddu cydnerthedd Unedau Rheoli Sylfaenol a'r heddlu o ran ymdrin â'r materion hyn.

Ym mis Mawrth 2014, llofnododd Heddlu De Cymru, ynghyd â'r heddluoedd eraill yng Nghymru, brotocol ar y cyd ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Diben hyn yw

sicrhau, pan fyddwn yn derbyn atgyfeiriadau anffurfio organau cenhedlu benywod, y bydd yr erlyniad a'r ymchwiliad yn cael eu cydlynu rhwng asiantaethau er mwyn symud ymlaen yn briodol. Mae'r protocol yn cynnwys cytundebau ar y broses, gan gynnwys gofalu am ddioddefwyr a thystion. Byddwn yn sicrhau bod y protocol yn cael ei ddeall a'i hyrwyddo ar draws yr heddlu.



Data Heddlu De Cymru

Mae'r tablau a gyflwynir yn yr adran hon yn rhoi ciplun o'r data cyfredol sydd ar gael am drais yn erbyn menywod a merched yn Heddlu De Cymru.

Data Heddlu De Cymru ar Gam-drin Domestig ar gyfer 2012 - 2013


Data Cam-drin Domestig	Cyfansymiau ar gyfer 2012 - 2013
Digwyddiadau Cam-drin Domestig	27,537
Nifer y Troseddau Cysylltiedig â Cham-drin Domestig	6,588
Nifer y Dioddefwyr Troseddu Cysylltiedig â Cham-drin Domestig	5,091
Nifer y Dioddefwyr Mynych Troseddu Cysylltiedig â Cham-drin Domestig (2 neu fwy o droseddau cysylltiedig â cham-drin domestig o fewn 12 mis hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd)	893

Data Heddlu De Cymru ar Droseddu Treisgar gydag Anaf

	Cam-drin Domestig 'Trais gydag Anaf'	Pob math o 'Drais gydag Anaf'	% Cam-drin Domestig	Cymhareb 1:x
Ebrill - Medi 2013	1,626	4,522	36%	2.8
2012 - 2013	2,892	8,532	34%	3.0
2011 - 2012	2,407	7,728	31%	3.2
2010 - 2011	2,566	8,512	30%	3.3
2009 - 2010	2,909	9,331	31%	3.2
2008 - 2009	2,606	10,103	26%	3.9

Mae'r data hwn yn dangos bod 'cam-drin domestig trais gydag anaf' yn cyfrif am oddeutu traean o'r holl achosion trais gydag anaf yn ardal Heddlu De Cymru.

Cyfradd y digwyddiadau cam-drin domestig a gofnodwyd gan Heddlu De Cymru fesul 1,000 o'r boblogaeth 2014-2014



**Data Heddlu De Cymru am Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol Difrifol
(Nifer y Troseddau yn ôl Uned Reoli Sylfaenol)**

Cam-drin Domestig (Trais gydag Anaf)	URhS Gogledd	URhS Dwyrain	URhS Canol	URhS Gorllewin	Heddlu De Cymru
2013-14 (PYE*)	779	920	543	880	3,123
2012-13	677	856	508	851	2,892
2011-12	651	630	515	611	2,407
Troseddau Rhywiol Difrifol	URhS Gogledd	URhS Dwyrain	URhS Canol	URhS Gorllewin	Heddlu De Cymru
2013-14 (PYE*)	228	276	150	290	944
2012-13	173	267	161	280	881
2011-12	162	220	160	185	727

*PYE = Data diwedd blwyddyn rhagamcanol

Data Heddlu De Cymru am Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mesurau	2011 - 2012	2012 - 2013
Trais gydag Anaf a gofnodwyd - domestig	2,379	2,892
Trais gydag Anaf a gofnodwyd lle mae'r dioddefwr yn fenywaidd - domestig	Heb fod ar gael	2,275 (78.6%)
Troseddau Rhywiol Difrifol a gofnodwyd	727	881
Troseddau Rhywiol Difrifol a gofnodwyd lle mae'r dioddefwr yn fenywaidd	632 (86.9%)	759 (83.8%)
Digwyddiadau Trais er Anrhydedd a gofnodwyd	39	53
Digwyddiadau Trais er Anrhydedd a gofnodwyd lle mae'r dioddefwr yn fenywaidd	Heb fod ar gael	40 (75.4%)
Digwyddiadau anffurfio organau cenhedlu benywod a gofnodwyd	Dim wedi'u hadrodd	Dim wedi'u hadrodd



Ein Camau Gweithredu a Chanlyniadau

Mae'r broses adolygiad thematig cynhwysfawr a arweiniwyd gan y Dirprwy Gomisiynydd a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Troseddu Arbenigol) wedi galluogi'r Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ddeall y meysydd lle mae Heddlu De Cymru a'i bartneriaid yn gwneud yn dda o ran trais yn erbyn menywod a merched, a'r meysydd y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt a lle mae angen gwella gwaith partneriaeth.

Dyma'r canlyniadau rydym yn gweithio tuag atynt trwy ddarparu'r Cynllun Trais yn Erbyn Menywod a Merched:

- **Cynnydd o ran adrodd am 'drais yn erbyn menywod a merched' trwy sicrhau bod yr holl unigolion ac asiantaethau partner yn teimlo'n hyderus i adrodd**
- **Lleihau nifer y bobl sy'n dioddef 'trais yn erbyn menywod a merched' yn fynych trwy adnabod achosion ac ymyrryd yn gynharach**
- **Sicrhau bod menywod a merched sydd wedi profi 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cael canlyniad cyfiawnder troseddol mwy cadarnhaol**

- **Sicrhau bod menywod a merched yn cael llais yn y ffordd y mae Heddlu De Cymru yn ymateb i drais seiliedig ar ryw**

- **Gwella dealltwriaeth Heddlu De Cymru o ddioddefwyr, a'i ymateb iddynt, o ran materion trais 'cudd' yn erbyn menywod a merched h.y. Trais er Anrhydedd, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod**

Bydd gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn allweddol i lwyddiant pob un o'r canlyniadau hyn. Felly, bydd gweithio gydag asiantaethau perthnasol yn flaenoriaeth drosfwaol er mwyn datblygu'r gwaith.

Rydym wedi ymroi i ddatblygu'r gwaith hwn trwy 3 maes gweithredu allweddol a amlygwyd trwy'r broses adolygu ac yr ymhelaethir arnynt yn yr adran nesaf:

Adnabod ac Ymyrryd

Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Annog Atal

Gwella Adnabod ac Ymyrryd

Mae ein proses adolygiad thematig wedi amlygu'r angen am ddulliau adnabod ac ymyrryd cynnar ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod a merched. Byddai hyn yn atal y difrifoldeb rhag gwaethygu ac yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n ddioddefwyr mynych.

Mae data Heddlu De Cymru yn dangos bod 27,537 o ddigwyddiadau a 5,901 o ddioddefwyr troseddau cam-drin domestig yn ardal yr heddlu yn ystod 2012-2013. Roedd cyfanswm o 15% o ddioddefwyr troseddau cam-drin domestig yn ddioddefwyr mynych. Roedd cyfanswm o 2,869 o blant yn rhan o'r 2,242 o achosion MARAC risg uchel a gynhaliwyd rhwng 2012 a 2013, sy'n amlygu graddau'r effaith y mae cam-drin domestig yn ei chael ar blant yn ne Cymru.

Mae'r ystadegau hyn yn cynrychioli'r digwyddiadau a adroddwyd i Heddlu De Cymru yn unig. Mae llawer mwy o achosion nad ydynt wedi'u hadrodd, ac mae'n bosibl bod asiantaethau eraill yn ymwybodol o rai ohonynt. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd annog asiantaethau eraill i atgyfeirio'r rhai hynny sydd mewn perygl i'r heddlu a/neu'r broses Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC).

Er bod nifer y dioddefwyr mynych yn ardal Heddlu De Cymru yn cymharu'n gadarnhaol â heddluoedd eraill yng Nghymru, hoffem weld canran y dioddefwyr mynych yn lleihau. Dylai adnabod ac ymyrryd yn gynnar, yn enwedig mewn achosion risg safonol a chanolig, arwain yn y pen draw at ostyngiad yn nifer y dioddefwyr sy'n profi achosion difrifol o gam-drin domestig, ac felly gostyngiad yn nifer y dioddefwyr mynych.

Y Materion Allweddol:

Mae'n dra hysbys bod tan-adrodd yn bodoli ar gyfer yr holl fathau o drais yn erbyn menywod a merched. Er enghraifft, mae menywod yn profi 35 digwyddiad trais domestig ar gyfartaledd cyn adrodd i'r heddlu⁷, ac amcangyfrifir mai dim ond 1 o bob 10 achos o drais sy'n cael ei adrodd i'r heddlu. Yn ogystal â chynyddu hyder unigolion i adrodd i'r heddlu, mae'n amlwg hefyd fod angen i asiantaethau gynyddu eu hatgyfeiriadau i'r heddlu a rhannu gwybodaeth a allai atal achosion rhag gwaethygu o ran difrifoldeb.

“Weithiau, rydych chi eisiau i rywun ofyn i chi. Dydych chi ddim yn gwybod sut i sôn am y ffaith eich bod chi'n ddioddefwr camdriniaeth, ond rydych yn gobeithio am gyfle i ddweud wrth rywun a fydd yn deall.”

Unigolyn sydd wedi goroesi cam-drin domestig, De Cymru

Canfu ein hadolygiad fod llawer o gyfleoedd yn debygol o fodoli i asiantaethau partner 'Ofyn a Gweithredu' wrth weithio gyda menywod a allai fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig, a bod rhai cyfleoedd yn cael eu colli. Mae hefyd angen i asiantaethau gynyddu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd atgyfeirio i'r broses Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC). Yr heddlu sy'n gwneud y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i MARAC, ac rydym wedi canfod bod nifer isel o atgyfeiriadau MARAC yn cael eu gwneud gan y sector iechyd ac asiantaethau eraill, er bod yr asiantaethau hyn yn debygol o gael cysylltiad cynnar â dioddefwyr posibl. Gallai

⁷ Yearnshaw (1997) a www.cps.gov.uk/news/articles/_domestic_violence_-_the_facts_the_issues_the_future

hyn fod yn rhannol oherwydd nad yw camdriniaeth yn cael ei hadnabod pan fydd dioddefwyr yn mynychu apwyntiadau meddygol arferol neu hyd yn oed yn mynd i gael triniaeth frys, gan nad yw cwestiynau allweddol o reidrwydd yn cael eu gofyn i fenywod a fyddai'n eu galluogi i ddatgelu eu camdriniaeth.

Rydym yn croesawu canllaw diweddar y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) sy'n annog ymateb gwell gan y sector iechyd i gam-drin domestig, ac rydym yn awyddus i ychwanegu at yr ysgogiad hwn gyda'r sector iechyd. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Weithredu Cydgyssylltiedig yn erbyn Cam-drin Domestig (CAADA) yn awgrymu bod dioddefwyr a amlygir trwy asiantaethau iechyd ac a atgyfeirir i Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARACs) o'r sector iechyd, yn fwy tebygol o gynnwys grwpiau agored i niwed ac anodd eu cyrraedd – gan gynnwys menywod beichiog, y rhai hynny sy'n dal i fyw gyda'r cyflawnwr, a'r rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. Mae dioddefwyr a atgyfeirir o'r sector iechyd hefyd yn profi camdriniaeth am gyfnod byrrach na dioddefwyr a amlygir gan y system cyfiawnder troseddol neu'r rheiny sy'n hunanatgyfeirio⁸. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn dangos arwyddocâd ymgysylltu â'r sector iechyd er mwyn annog adnabod yn gynnar.

Mae ein trafodaethau â dioddefwyr wedi dangos bod cyfleoedd i adnabod cam-drin domestig yn cael eu colli yn sector yr heddlu hefyd, gyda dioddefwyr yn teimlo bod angen sicrhau bod pob swyddog yn cael hyfforddiant priodol i geisio adnabod risg bosibl nad yw'n amlwg efallai o'r cychwyn.

Mae ein hymchwil wedi canfod bod o leiaf 110,000 o dai cymdeithasol yn ardal Heddlu De Cymru, y mae llawer ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd cymdeithasol. Mae ein hymchwil mapio'n dangos bod lefelau uwch o gam-drin domestig yn ein hardaloedd o amddifadedd. Er enghraifft, ceir y nifer fwyaf o achosion risg uchel ym Merthyr Tudful, gyda chymhareb o 65 fesul 10,000 o'r boblogaeth fenywod. Mae llawer o gyfleoedd yn debygol o fodoli yn y sector tai i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig a'u hatgyfeirio i asiantaethau priodol.

Mae ein hadolygiad hefyd wedi cadarnhau bod her yn dal i fodoli o ran annog unigolion a phartneriaid i roi gwybod i'r heddlu am faterion 'cudd' trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r rhain yn cynnwys trais er anrhydedd, achosion o briodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae materion rhannu gwybodaeth yn debygol o fod yn gysylltiedig â hyn, lle y gallai asiantaethau'r trydydd sector ac asiantaethau eraill fod yn ymwybodol o risgiau neu achosion posibl ond nid ydynt yn hyderus i rannu'r wybodaeth neu'n teimlo na allant wneud hynny.

Yn aml, gall dioddefwyr trais 'cudd' yn erbyn menywod a merched fod mewn perygl difrifol o niwed a gallai eu hachosion waethgu o ran difrifoldeb yn gyflym, yn hytrach na bod yn gyfres raddol o ddigwyddiadau. Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion ar draws sectorau, ac mae angen i ddioddefwyr wybod y byddant yn cael eu cefnogi a'u diogelu, yn ogystal â chael eu hannog i adrodd.

Amcangyfrifir bod cynifer â 6,500 o ferched mewn perygl o anffurfio organau cenhedlu

⁸ CAADA (2012) 'A Place of Greater Safety': Insights into Domestic Abuse:1.

benywod yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod hynny wedi bod yn erbyn y gyfraith yn y DU ers 1985, ni fu unrhyw erlyniad yn y DU tan yn gynnar yn 2014. Lanswyd ymchwiliad gan bwyllgor Materion Cartref y DU ym mis Rhagfyr 2013 i ystyried rhai o'r materion ac i weld sut y gellir cynyddu erlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU. Byddwn yn awyddus i weithio gydag unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad.

Mae angen gwneud mwy hefyd i annog rhai cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i adrodd am gam-drin domestig. Mae angen i bobl ym mhob cymuned wybod y gallant adrodd i wasanaeth heddlu a fydd yn gofalu amdanynt ac yn cynnig cymorth priodol iddynt. Yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau fod mathau 'cudd' o drais yn anghywir ac y dylid adrodd amdanynt, mae hefyd angen i Heddlu De Cymru sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cymorth priodol sy'n sensitif yn ddiwylliannol.



Ein Camau Gweithredu

Er mwyn gwella adnabod ac ymyrryd yn gynnar o ran Trais yn Erbyn Menywod a Merched, byddwn yn rhoi'r camau canlynol ar waith

Annog adrodd ac ymyrryd yn gynnar yn y Sector Iechyd

Byddwn yn gwneud cysylltiadau cryf rhwng Heddlu De Cymru a'r Byrddau Iechyd er mwyn cynyddu nifer y materion cam-drin domestig, anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais arall yn erbyn menywod a merched sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu, ac felly nifer y dioddefwyr sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth yn gynharach. Trwy brosiect Cyswllt Iechyd a arweinir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, bydd hyn yn cynnwys annog prosesau 'Gofyn a Gweithredu' mewn gwasanaethau Mamolaeth a Damweiniau ac Achosion Brys, gan gryfhau prosesau ar gyfer atgyfeirio dioddefwyr i wasanaethau priodol a'r heddlu lle y bo'n briodol. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio annog atgyfeiriadau MARAC gan y sector iechyd, ac yn gweithio i gryfhau cysylltiadau ac ymwybyddiaeth o'r angen am ymyrryd ac adrodd yn gynnar ar draws y sector.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector iechyd ac mewn sectorau eraill i gyflwyno'r prosiect Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS) ar y cyd yn ardal Caerdydd a'r Fro lle y ceir nifer uchel o achosion. Mae'r prosiect hwn, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r DU, yn hyfforddi meddygon teulu a staff meddygfeydd i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig a'u hatgyfeirio i wasanaethau priodol. Mae canlyniadau mewn ardaloedd eraill wedi dangos bod y prosiect wedi arwain at gynnydd cadarnhaol mewn atgyfeiriadau,



sy'n golygu, yn y pen draw, bod dioddefwyr yn cael eu cynorthwyo'n gynharach yn eu camdriniaeth. Mae'r prosiect hefyd wedi arbed costau sylweddol i'r sector iechyd. Ar ddiwedd y prosiect, byddwn yn edrych i weld sut y gellir ymsefydlu'r broses a'i gwneud yn gynaliadwy ar draws yr heddlu.

Rhannu Gwybodaeth

Rydym wedi canfod bod angen eglur i wella dulliau rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol asiantaethau partner. Dangosodd ein hadolygiad fod llawer o asiantaethau'n dal gwybodaeth am ddioddefwyr a chyflawnwyr ond nad ydynt o reidrwydd yn rhannu'r wybodaeth hon ag eraill. Weithiau, mae hyn oherwydd diffyg proses eglur i wneud hynny, ac weithiau oherwydd nad yw asiantaethau'n ymwybodol o ba mor werthfawr y gallai eu gwybodaeth fod pe byddai'n cael ei rhannu.

Dangosodd ein hadolygiad fod swyddogion Heddlu De Cymru yn awyddus iawn i annog partneriaid i rannu mwy o wybodaeth gyda hwy ac i roi unrhyw wybodaeth a allai newid eu safbwynt o ran y risg sy'n gysylltiedig â dioddefwr neu achos penodol. Ni ddylai'r cyfrifoldeb fod yn gyfan gwbl ar ysgwyddau'r heddlu, ac felly byddwn yn gweithio i annog partneriaid i rannu mwy o wybodaeth gyda Heddlu De Cymru ac i ddeall pam nad yw hyn yn digwydd o bosibl mewn rhai achosion

Gwaith Amlasiantaethol

Bydd Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cefnogi datblygiad

dulliau gweithio amlasiantaethol cryfach ag asiantaethau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio ym maes trais yn erbyn menywod a merched. Byddwn yn rhoi cefnogaeth gref i gyflwyno'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) sydd i'w threialu yn ardal Ogleddol yr heddlu, a byddwn yn annog partneriaid ym mhob rhan o'r heddlu i sefydlu'r un dulliau neu ddulliau tebyg. Yn ogystal ag amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl uchel, mae ymagwedd amlasiantaethol yn annog ymyrryd yn gynnar mewn achosion risg safonol a chanolig, ac rydym yn ymroi i hynny.

Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn datblygu protocol ar rannu gwybodaeth am risg gydag asiantaethau eraill, a fydd yn cynnwys yr angen i bartneriaid weithredu ar y wybodaeth a rhoi gwybodaeth yn ôl i Heddlu De Cymru mewn modd amserol. Bydd hyn yn caniatáu i'r heddlu weithredu ar wybodaeth ychwanegol a/neu ailasesu'r risg lle y bo'r angen, gyda'r nod o ymyrryd yn gynnar ar bob cyfle.

Annog adrodd am faterion 'cudd' ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Bydd Heddlu De Cymru yn gweithio i annog mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais er anrhydedd, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod ar draws yr heddlu ac ymhlith asiantaethau partner.

Mae angen penodol i annog atgyfeiriadau ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod gan unigolion, y sector iechyd a'r sector addysg, lle y gallai fod amheuan neu bryderon. Byddwn yn gweithredu'n gyhoeddus yn hyn o beth ac yn ceisio hysbysebu llinellau cymorth, fel llinell gymorth genedlaethol yr NSPCC ar anffurfio organau cenhedlu benywod. Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn ceisio datblygu

cysylltiadau â chymunedau lleiafrifol ac ysgolion mewn ardaloedd penodol er mwyn datblygu negeseuon eglur am adrodd a'r cymorth sydd ar gael.

Bydd Heddlu De Cymru hefyd yn gweithio i annog adrodd am gam-drin domestig ymhlith grwpiau lleiafrifol eraill lle y ceir cyfraddau adrodd isel. Er enghraifft, byddwn yn annog adrodd o fewn grwpiau ethnig lleiafrifol penodol (gan gynnwys ymhlith sipsiwn a theithwyr), lle nad yw bob amser yn dderbyniol yn ddiwylliannol i ddatgelu camdriniaeth o'r fath. Byddwn hefyd yn annog adrodd gan bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cyswllt â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Bydd Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ceisio cynyddu eu gweithgarwch partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gwneir hyn gan gydnabod bod nifer fawr o bobl yn byw mewn tai cymdeithasol yn ardal Heddlu De Cymru, a bod llawer ohonynt yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd lle y mae cam-drin domestig yn fwy tebygol. Dylai'r gweithgarwch gynnwys pwyso a mesur ymagwedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at gam-drin domestig ar draws de Cymru. Byddwn yn gweithio i ddatblygu protocol cytunedig a chyson ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ymdrin â cham-drin domestig yn yr ardal, i'w ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Byddwn hefyd yn ystyried pa wybodaeth arall y gallai Heddlu De Cymru fod yn ei rhannu â'r sector tai cymdeithasol mewn perthynas â cham-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched. Gwneir ymdrech i ystyried lle y gallai'r sector ychwanegu gwerth at arferion Heddlu De Cymru.

Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Ceir llawer o asiantaethau statudol a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched ledled de Cymru. Amlygodd ein hadolygiad fod Heddlu De Cymru a'n partneriaid yn frwd iawn dros leihau trais yn erbyn menywod a merched a darparu gwasanaeth o ansawdd da i ddioddefwyr a goroeswyr.

Ni fydd profiadau unrhyw ddau unigolyn sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, priodas dan orfod, trais er anrhydedd neu anffurfio organau cenhedlu benywaidd yr un fath, ac mae'n hollbwysig sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yn adlewyrchu anghenion gwahanol unigolion. Uwchlaw popeth, mae'n hanfodol sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da gan yr heddlu a phartneriaid pan fyddant yn adrodd am gamdriniaeth, eu bod yn cael eu diogelu'n briodol, a'u bod yn cael eu cefnogi'n sensitif trwy gydol eu taith drwy'r system cyfiawnder troseddol, gyda'r nod o sicrhau canlyniad cyfiawnder troseddol cadarnhaol.

Y Materion Allweddol:

Cydlynu gwasanaethau

Canfu ein hadolygiad fod rhywfaint o ddyblygu ymdrechion yn debygol ar draws gwasanaethau cam-drin domestig, yn ogystal â dryswch ynghylch trefniadau cyllido a sut y cânt eu cydlynu. Canfu hefyd fod lefel y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr yn amrywio ar draws ardal ein heddlu. Yn arbennig, mae'n amlwg bod niferoedd Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn wahanol iawn ar draws ardaloedd awdurdod lleol yn ne Cymru, ond nad yw niferoedd IDVA o reidrwydd yn cyfateb i nifer yr achosion.

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud

wrthym fod angen gwasanaeth cyson o'r dechrau i'r diwedd ar hyd taith eu hachos, a phe byddai asiantaethau'n fwy cydgysylltiedig, byddai eu taith yn debygol o gael ei chefnogi'n fwy effeithiol. Nid oes llawer o amheuaeth fod angen darparu ymagwedd mor gyson â phosibl i ddioddefwyr.

Rydym wedi canfod bod diffyg dealltwriaeth a rennir ymhlith dioddefwyr a hyd yn oed asiantaethau, ynghylch yr holl wasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig, yn enwedig y rhai hynny â risg safonol i ganolog. Mae angen sicrhau bod y dewisiadau'n fwy eglur o lawer i bawb er mwyn i ymyrraeth gan yr heddlu a phartneriaid gyflawni ein nod o leihau nifer y dioddefwyr mynych. Mae angen dealltwriaeth well o'r gwasanaethau sydd ar gael i blant sy'n ddioddefwyr mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig hefyd.

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Canfu ein hadolygiad fod angen i gam-drin domestig a 'thrais yn erbyn menywod a merched' gael eu monitro'n strategol, gan ddwyn ynghyd partneriaid gwirfoddol a statudol ar draws yr heddlu. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i gydlynu ymdrechion, rhannu gwybodaeth, lleihau dyblygu a rhannu arfer da - a hynny oll gyda'r nod o sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr.

Hyfforddi Swyddogion a Staff

Mae Heddlu De Cymru wedi darparu hyfforddiant i lawer o'i swyddogion rheng flaen ar faterion trais yn erbyn menywod a merched.

Mae angen i swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu feddu ar ddealltwriaeth eglur o gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn

menywod a merched, gan gynnwys ymwybyddiaeth o drais er anrhydedd, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae her yn dal i fodoli o ran sicrhau bod holl swyddogion yr heddlu a staff perthnasol yr heddlu yn meddu ar yr ymwybyddiaeth sy'n ofynnol i annog adrodd yn gynnar, ymyrryd yn gynnar ac ymateb priodol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, gan gynnwys yr angen i weithio i gasglu tystiolaeth briodol i gefnogi achos dioddefwr.

“Fe wnes i ffonio'r heddlu nifer o weithiau, ond roeddwn yn ofni dweud y stori gyfan. Yna, un diwrnod, fe wnaeth swyddog ddefnyddio geiriau yr oeddwn yn gallu uniaethu â nhw, a theimlais fy mod i'n gallu dweud popeth wrthi.”

Unigolyn sydd wedi goroesi cam-drin domestig, De Cymru

Yn ystod ein hadolygiad, dywedodd dioddefwyr ac ymarferwyr wrthym y dylai'r heddlu gael hyfforddiant uwch ar sgiliau iaith a chyfathrebu. Ystyriwyd bod y sgiliau hyn yn hollbwysig er mwyn cael gwybodaeth gan ddioddefwyr posibl cam-drin domestig neu drais rhywiol, gan roi'r hyder iddynt ddatgelu digwyddiadau a risg. Teimlwyd hefyd fod gwir angen i swyddogion yr heddlu feddu ar ddealltwriaeth o sut mae dioddefwyr yn ymdrin â materion cam-drin domestig ac effeithiau arfer pŵer a rheolaeth, sy'n aml yn digwydd am gyfnod hir, yn ogystal ag effaith teulu a chyllid ar ddull dioddefwr o ymdrin â'r profiad o gamdriniaeth.

Mae dioddefwyr cam-drin domestig hefyd wedi dweud wrthym ei bod yn bwysig eu

cynnwys hwy fel siaradwyr mewn hyfforddiant yn y dyfodol, er mwyn creu sesiynau dysgu sy'n cael mwy o effaith ac sydd felly'n fwy tebygol o arwain at newidiadau cadarnhaol yn y lleoliad gwaith. Ystyriwyd bod mewnbwn gan 'arbenigwyr' ar drais yn erbyn menywod a merched yn bwysig ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol.

Yn olaf, ystyriwyd bod ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn elfen hollbwysig o unrhyw hyfforddiant ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched, er mwyn annog mwy o ddealltwriaeth o'r gwahanol greddau, agweddau a phrofiadau ar draws grwpiau lleiafrifol a chefnidiroedd ethnig.

Bodlonrwydd Dioddefwyr

Cadarnhaodd ymarferwyr a dioddefwyr a gymerodd ran yn y broses adolygu y gall fod yn anodd iawn mesur bodlonrwydd dioddefwyr ymhlith dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, a'i bod yn amhriodol gwneud hynny yn aml. Mae hyn yn cyflwyno her benodol i Heddlu De Cymru wrth iddo weithio i sicrhau bod ei wasanaeth a'i ymyriadau'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Mae Heddlu De Cymru am i ddioddefwyr y mathau hyn o gamdriniaeth gael llais yn y ffordd y maent yn derbyn gwasanaeth a chymorth, ond nid oes unrhyw ddulliau sefydledig ar gael i fesur pa mor dda y mae dioddefwyr yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Mae'r adolygiad wedi dangos bod dewisiadau ar gael i fesur pa wybodaeth y gellid ei chasglu trwy lwybrau eraill – er enghraifft, trwy Cymorth i Ferched, Cymorth i Ddioddefwyr neu Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiad Rhywiol. Mae'n amlwg bod angen ystyried dewisiadau gofalus a sensitif i ganfod barn dioddefwyr am eu profiad yn y dyfodol.

Ein Camau Gweithredu

Er mwyn sicrhau ymagwedd at Drais yn Erbyn Menywod a Merched sy'n canolbwyntio ar y dioddefwyr, byddwn yn rhoi'r camau canlynol ar waith.

Mapio Gwasanaethau

Byddwn yn comisiynu ymarfer mapio trylwyr o'r holl wasanaethau cam-drin domestig sy'n

cael eu darparu a'u cynnig yn ne Cymru yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cofnodi nifer yr achosion a nifer y dioddefwyr er mwyn asesu'r galw o gymharu â'r ddarpariaeth ym mhob ardal o'r heddlu. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael a'r hyn nad yw ar gael ar gyfer dioddefwyr â risg safonol, ganolig ac uchel, a lle y gallai fod angen gwella neu ddiwygio'r ddarpariaeth i fodloni



anghenion dioddefwyr. Bydd hefyd yn amlygu meysydd lle y dyblygir gwasanaethau. Yn ogystal, byddwn yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i blant sy'n ddioddefwyr mewn sefyllfa cam-drin domestig, a byddwn yn ystyried ymateb yr heddlu a phartneriaid i blant.

Bydd canlyniad yr ymarfer mapio'n cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o gydgomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, y bydd y Comisiynydd yn gyfrifol amdanynt o fis Ebrill 2015 ymlaen, a gall ddwyn ynghyd gwahanol sectorau ac asiantaethau i ddarparu'r ymateb gorau posibl i ddioddefwyr.

Prosesau Atgyfeirio Dioddefwyr

Bydd Heddlu De Cymru yn ystyried y ffyrdd y gallai ei swyddogion a'i staff ei hun atgyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig i wasanaethau priodol ar y cyfle cynharaf. Er enghraifft, trwy atgyfeirio dioddefwyr risg safonol a chanolig yn gynnar i Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan ar gyfer cyngor a chymorth, a thrwy ystyried y ffyrdd gorau o gynghori dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl yn sensitif am y dewisiadau gwasanaeth sydd ar gael iddynt.

Hyfforddi Swyddogion a Staff i Ganolbwyntio ar y Dioddefwr

Bydd Heddlu De Cymru yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi o ran yr hyfforddiant cam-drin domestig a thrais rhywiol a ddarperir ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod cynnwys yr hyfforddiant yn rhoi digon o ddealltwriaeth o gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Rhoddir ystyriaeth i sut i gynnwys cyfraniad gan ddioddefwyr, asiantaethau partner ac arbenigwyr yn y maes, yn ogystal â phwyslais eglur ar bwysigrwydd cyfathrebu, iaith a

chyfweld ysgogol, a phwysigrwydd casglu'r holl dystiolaeth bosibl i gefnogi achos dioddefwr.

Mesur Bodlonrwydd Dioddefwyr

Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu dulliau ar gyfer mesur bodlonrwydd dioddefwyr cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched. Nid oes unrhyw ddulliau o'r fath ar gael ar hyn o bryd a chydabyddwn fod angen iddynt gael eu datblygu'n sensitif. Byddwn yn sefydlu dewisiadau ar gyfer mesur cyfraddau bodlonrwydd a barn am brofiad personol o ymyrraeth gan yr heddlu.

Monitro Strategol

Er mwyn cydlynu gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, byddwn yn sefydlu Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol strategol ar gyfer De Cymru. Bydd hwn yn dwyn ynghyd asiantaethau statudol a gwirfoddol i sefydlu camau cydlynol ar gyfer gwella a strwythur eglur o atebolrwydd. Bydd y Fforwm hefyd yn galluogi rhannu arfer da.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffyrdd y darperir arweinyddiaeth strategol ar drais yn erbyn menywod a merched ar lefel Cymru gyfan.

Annog Atal

Mae ein hadolygiad wedi pwysleisio'r angen am wella addysg a chynyddu ymwybyddiaeth ynghylch trais yn erbyn menywod a merched, a hynny ymhlith y cyhoedd yn ogystal ag o fewn asiantaethau statudol a gwirfoddol. Byddai hyn yn cyfrannu'n sylweddol at atal trais yn erbyn menywod a merched yn y dyfodol, ac yn annog adrodd yn hyderus gan y byddai pobl yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt os ydynt yn profi camdriniaeth neu'n amau ei bod yn digwydd i rywun arall.

Rydym hefyd wedi amlygu pwysigrwydd mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched lle y mae'n tarddu, trwy weithio i newid ymddygiad cyflawnwyr. Heb roi sylw i gyflawnwyr, ni fydd cam-drin domestig wir yn cael ei atal rhag digwydd.

Y Materion Allweddol:

Addysg ac Ymwybyddiaeth

Mae cyfraddau datrysiad â sancsiwn Heddlu De Cymru ar gyfer treisio oedolyn ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r cyfraddau ar gyfer achosion treisio plentyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol ar y cam cynnar hwn o'r broses cyfiawnder troseddol, amlygodd ein hadolygiad fod achosion trais rhywiol Heddlu De Cymru yn aml yn arwain at ryddfarn gan reithgor. Yn fyr, er bod ardal Heddlu De Cymru yn gwneud yn dda iawn o ran datrys trais rhywiol, mae achosion yn methu yn ddiweddarach yn y broses cyfiawnder troseddol, a gallai hyn fod yn effeithio ar hyder dioddefwyr i adrodd gan wybod y byddant yn cael eu credu. Mae nifer yr erlyniadau trais rhywiol ledled y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn isel iawn, gyda 7% yn unig o'r achosion trais rhywiol a adroddwyd i'r heddlu yn arwain at gollfarn yn 2011-2012.

Rydym yn gwybod ei bod hi'n anodd sefydlu'r rhesymau am y nifer uchel o ryddfarnau gan reithgorau, ac mae'n debygol y byddant yn niferus. Fodd bynnag, amlygodd ein hadolygiad bwysigrwydd dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ehangach o drais rhywiol ymhlith y cyhoedd, lle y gall 'mythau' am drais ac agwedd o feio'r dioddefwr fodoli o hyd.

Mae ymgyrchoedd cyhoeddus yn bwysig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched. Dylent gynnwys dealltwriaeth o'r angen i ddioddefwyr adrodd amdano, sut y gallant adrodd ac i ble y gallant fynd am gymorth a chynghor. Dylent hefyd gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin domestig, trais rhywiol a materion yn ymwneud â chydysyniad, gan gynnwys y ffaith bod pob agwedd ar drais yn erbyn menywod a merched yn anghywir.

Mae'r adolygiad thematig hefyd wedi amlygu'r angen i roi cyhoeddusrwydd ehangach i'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (Cyfraith Clare), a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2014. Mae'n rhoi cyfle i unigolion gael gwybod am hanes troseddol partner os yw camdriniaeth yn digwydd neu'n cael ei hamau. Gallai defnydd o'r cyfle hwn leihau nifer y bobl sy'n mynd ymlaen i brofi cam-drin domestig, ac felly ystyriwn ei fod yn fater ymwybyddiaeth blaenoriaethol.

Mae addysg mewn ysgolion yn bwysig iawn hefyd o ran atal pobl rhag dod yn ddioddefwyr a chyflawnwyr yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n galluogi pobl ifanc i adnabod cam-drin domestig a digwyddiadau eraill o drais yn erbyn menywod a merched y gallent eu gweld neu eu profi yn eu cartrefi neu mewn sefyllfaoedd eraill. O ystyried bod y diffiniad o gam-drin domestig wedi'i ymestyn yn ddiweddar i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed, a

bod y rhai rhwng 16 a 24 oed mewn mwy o berygl o ddioddef cam-drin domestig nag unrhyw grŵp oedran arall⁹, mae'n amlwg bod angen cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc.

Canfu'r adolygiad nad yw'r modiwl perthnasodd iach (sy'n ymdrin â cham-drin domestig) yn Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn cael ei gyflwyno digon mewn rhai rhannau o ardal yr heddlu. Er bod mwy o ysgolion yn dewis cyflwyno'r sesiynau hyn, nid ydynt yn orfodol, ac mae'r lefel oddeutu 50% ar hyn o bryd. Mae gwaith ymwybyddiaeth mewn ysgolion yn agwedd allweddol ar atal, ac mae her yn dal i fodoli o ran sut y gellir cynyddu nifer y sesiynau hyn a gyflwynir ar draws y sector addysg.

Cyflawnwyr

Mae rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig yn bwysig iawn o ran rheoli lefelau trais yn erbyn menywod a merched, ac felly hefyd rhaglenni i newid ymddygiad y rhai hynny a allai fod mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig. Dylai gweithio i newid ymddygiad cyflawnwyr arwain at ostyngiad mewn ymddygiad camdriniol a gostyngiad mewn digwyddiadau a dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched. Yn y pen draw, dylai hyn fod yn rhan o unrhyw gamau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a'i atal. Gallai ymyrraeth deuluol briodol a sensitif fod yn fwy addas mewn rhai achosion lle mae'r dioddefwr yn ffafrio'r ymagwedd hon a lle y gellir rheoli lefel y risg.

Fodd bynnag, nid yw gwaith gyda chyflawnwyr wedi'i ddatblygu digon ac mae angen gwneud mwy i amlygu'r hyn sy'n gweithio a lle y gwelir canlyniadau gwirioneddol.

Mae Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM) Cymru yn ymgymryd â darn o waith penodol ar y pwnc hwn, y bydd Heddlu De Cymru yn ceisio cymryd rhan ynddo.

Ein Camau Gweithredu

Er mwyn annog atal Trais yn Erbyn Menywod a Merched, byddwn yn rhoi'r camau canlynol ar waith.

Addysg ac Ymwybyddiaeth

Byddwn yn datblygu cynlluniau cyfathrebu eglur ar gyfer hysbysu'r cyhoedd am drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys y ffyrdd o adrodd am gamdriniaeth a thrais, defnyddio'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (Cyfraith Clare), y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a'r neges eglur a chryf fod pob math o drais yn erbyn menywod a merched yn anghywir.

Wrth edrych yn ôl, rwy'n credu yr oeddwn i'n rhy ifanc i ddeall fy mod i mewn perthynas gamdriniol. Dylid addysgu pobl ifanc am gamdriniaeth er mwyn iddyn nhw allu ei adnabod os yw'n digwydd iddyn nhw neu i rywun y maen nhw'n ei adnabod.

Unigolyn sydd wedi goroesi cam-drin domestig, De Cymru

Byddwn hefyd yn ceisio gweithio'n agosach ag ysgolion o ran cyflwyno modiwlau Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ar faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, gan annog mwy o ysgolion i ddewis eu cyflwyno a chyfleu pwysigrwydd hynny.

⁹ Smith, K., Osborne, S., Lau, I. et al (2012) Homicides, Firearm offences and intimate violence 2010/11: Supplementary Vol 2 to Crime in England and Wales 2010/11. Llundain.

Byddwn yn sicrhau bod gwaith Heddlu De Cymru ar 'ryw-decstio' mewn ysgolion yn parhau, a byddwn yn gweithio i ystyried a ellid datblygu cynnwys y rhaglen i gynyddu ymwybyddiaeth rhieni.

Rhaglenni ar gyfer Cyflawnwyr

Gan ddefnyddio ein partneriaid academiaidd, byddwn yn comisiynu adolygiad o lenyddiaeth o ran rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr a'u llwyddiant. Mae angen dadansoddi'r rhaglenni presennol, gan gynnwys lle y maent yn ychwanegu gwerth, ac yna cydlynu datblygiad rhaglenni cytunedig a fydd yn gallu gweithredu yn ne Cymru. Byddwn hefyd yn trafod cynlluniau am raglenni ar gyfer

cyflawnwyr yn yr ardal gydag Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae angen dod i gytundeb ar sut y bydd llwyddiant y rhaglenni'n cael ei fesur a'i fonitro dros amser.

Byddwn yn cysylltu â'r gwaith ar raglenni ar gyfer cyflawnwyr sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Prawf, Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM) Cymru a charchardai de Cymru, ac yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio canfyddiadau'r canlyniadau mewn modd cydlynol ledled de Cymru. Dylai dewisiadau ymyrraeth deuluol gael eu harchwilio hefyd gyda'r asiantaethau perthnasol, fel y Gwasanaeth Prawf a Llywodraeth Cymru.



Mesurau Llwyddiant

Mae'r tabl isod yn dangos y mesurau y byddwn yn eu defnyddio i asesu cynnydd yn erbyn ein canlyniadau.

Canlyniadau	Dangosyddion Arfaethedig	Mesur Llwyddiant
Cynyddu adrodd gan unigolion ac asiantaethau Gwella ein hymateb i ddioddefwyr trais cudd yn erbyn menywod a merched	Nifer y digwyddiadau cam-drin domestig (a ddadansoddir yn ôl y math o ddigwyddiad lle y bo'n bosibl)	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu cynnydd mewn hyder
	Nifer y digwyddiadau troseddau rhywiol	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu cynnydd mewn hyder
	Nifer y digwyddiadau trais er anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu cynnydd mewn hyder
	Troseddau aflonyddu ar-lein a gofnodwyd	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu cynnydd mewn hyder
	Troseddau aflonyddu ar y stryd a gofnodwyd	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu cynnydd mewn hyder
	Trais gydag anaf a gofnodwyd gan weithwyr rhyw (nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar hyn o bryd ac mae angen gwneud gwaith i sefydlu sut y gellid ei chofnodi)	Cynnydd mewn digwyddiadau i adlewyrchu hyder a gweithio mewn partneriaeth
	Nifer y dioddefwyr newydd cam-drin domestig a throseddau rhywiol difrifol	Cynnydd mewn dioddefwyr newydd, sy'n adlewyrchu hyder i adrodd (yn hytrach na mwy o achosion mynych)
	Nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig gan y sector iechyd i MARAC	Cynnydd mewn atgyfeiriadau
	Nifer yr atgyfeiriadau gan asiantaethau partner (nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar hyn o bryd ac mae angen gwneud gwaith i sefydlu sut y gellid ei chofnodi)	Cynnydd mewn atgyfeiriadau

Mae'r tabl isod yn dangos y mesurau y byddwn yn eu defnyddio i asesu cynnydd yn erbyn ein canlyniadau.

Canlyniadau	Dangosyddion Arfaethedig	Mesur Llwyddiant
Gostyngiad yn nifer y dioddefwyr mynych	Nifer y dioddefwyr mynych cam-drin domestig a thrais rhywiol	Gostyngiad yn nifer yr achosion mynych i adlewyrchu ymyrraeth lwyddiannus gynharach
	Canran y dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel	Gostyngiad yn nifer yr achosion mynych i adlewyrchu ymyrraeth lwyddiannus gynharach
	Nifer gyfartalog y digwyddiadau cam-drin domestig yn y 6 mis diwethaf ar gyfer y 10 dioddefwr mynych risg uchaf	Gostyngiad mewn niferoedd i adlewyrchu ymyrraeth
Dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched i gael canlyniad cyfiawnder troseddol mwy cadarnhaol	Canran y troseddau cam-drin domestig sy'n arwain at gollfarn	Cynnydd o ran canran collfarnau
	Canran y troseddau cam-drin domestig lle y gwneir arestiad o fewn 24 awr	Cynnydd yn y ganran i adlewyrchu ymyrraeth a gweithredu cynnar
	Mesurau mechnïaeth	Gostyngiad mewn amserau mechnïaeth i adlewyrchu penderfyniadau cyhuddo o drosedd
Menywod a merched i gael llais yn y ffordd yr ydym ni'n ymateb i drais seiliedig ar ryw	Bodlonrwydd dioddefwyr ag ymateb yr heddlu a phartneriaid	Dealltwriaeth o farn dioddefwyr er mwyn gallu sefydlu mesurau ymyrryd a chymorth priodol i ddioddefwyr

Camau Gweithredu a Monitro

Mae'r camau gweithredu manwl y byddwn yn eu cymryd o dan bob maes allweddol wedi'u rhestru yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A.

Bydd cynnydd y camau gweithredu'n cael ei fonitro trwy ddiweddariadau rheolaidd i Fwrdd Strategol y Comisiynydd a thrwy Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De Cymru a fydd yn cael ei sefydlu.

Casgliad

Trwy weithredu ein 'Cynllun ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched', rydym yn ceisio cyflawni newidiadau gwirioneddol, cadarnhaol i ddioddefwyr, gan gynnwys cynnydd yn eu hyder i adrodd, ymyrraeth gynnar i'w helpu trwy eu profiad, a gostyngiad yn nifer y menywod a'r merched sy'n profi camdriniaeth neu drais yn fyny.

Byddwn yn gweithio'n gadarnhaol â'n partneriaid statudol a gwirfoddol i gyflawni ein camau gweithredu gan ein bod yn sylweddoli bod trais yn erbyn menywod a merched yn fater i bawb. Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef, ac rydym yn ymroi i wneud hynny'n ddiwyd yn ne Cymru.



Atodiad A

Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer

Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

2014 - 2017

Cynllun Gweithredu



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru



Gwella Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar

Gwella Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar		Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Cwblhau
1	Darparu prosiect Cyswllt Iechyd i annog prosesau 'Gofyn a Gweithredu' mewn gwasanaethau Mamolaeth a Damweiniau ac Achosion Brys yn ne Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Mai 2016
2	O fewn y prosiect Cyswllt Iechyd, annog atgyfeiriadau Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) gan y sector iechyd	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Mai 2017
3	Ar y cyd â phartneriaid, cyflwyno'r prosiect Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS) mewn ardal glwstwr gytunedig o feddygon teulu yng Nghaerdydd a'r Fro	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Mai 2016
4	Cefnogi'r broses o gyflwyno'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) i'w threialu yn Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd ac URhS Gogledd)	Ebrill 2015
5	Asesu'r potensial i'r ymagwedd Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) yn Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd gael ei chyflwyno ar draws ardal yr heddlu	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd ac URhS Gogledd)	Mehefin 2017
6	Datblygu protocol ar rannu gwybodaeth am risg gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr angen i bartneriaid weithredu ar y wybodaeth a rhoi gwybodaeth yn ôl mewn modd amserol	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Hydref 2015
7	Annog mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drais er anrhydedd, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod ar draws yr heddlu ac ymhlith asiantaethau partner	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau)	Medi 2016 a thu hwnt
8	Archwilio dewisiadau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant ar Drais er Anrhydedd / Priodas dan Orfod a ddarparwyd yn ddiweddar	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau)	Mai 2015
9	Annog atgyfeiriadau anffurfio organau cenhedlu benywod gan unigolion, y sector iechyd, y sector addysg ac asiantaethau eraill	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Mai 2017
10	Ceisio hysbysebu cymorth ynglŷn ag anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith y cyhoedd e.e. trwy hysbysebu llinell gymorth genedlaethol yr NSPCC ar anffurfio organau cenhedlu benywod	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Mai 2015

11	Annog adrodd am gam-drin domestig gan grwpiau lleiafrifol lle y ceir cyfraddau adrodd isel e.e. pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a rhai grwpiau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd, Cysylltiadau Corfforaethol, Cyfiawnder a Phartneriaethau, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)	Mai 2017
12	Cynyddu gweithgarwch partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phwyso a mesur eu hymagwedd at gam-drin domestig ar draws de Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Medi 2015
13	Datblygu protocol cytunedig a chyson ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ymdrin â cham-drin domestig, i'w ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Mai 2016
14	Ystyried pa wybodaeth arall y gallai'r heddlu ei rhannu â'r sector tai mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Hydref 2015

Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Sicrhau Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr		Lead Responsibility	Timescale for Completion
15	Comisiynu ymarfer mapio o'r gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ne Cymru, gan asesu'r galw o gymharu â'r ddarpariaeth. Dylai'r adolygiad gynnwys archwiliad o'r gwasanaethau a ddarperir i blant	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Mehefin 2014
16	Ystyried ffyrdd y gallai swyddogion a staff Heddlu De Cymru atgyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig i wasanaethau priodol ar y cyfle cynharaf (e.e. cysylltiadau â Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan)	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Hydref 2014
17	Sefydlu Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol strategol ar gyfer De Cymru er mwyn dwyn ynghyd partneriaid statudol a gwirfoddol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Mehefin 2014
18	Ystyried ffyrdd y gellid darparu arweinyddiaeth strategol ar drais yn erbyn menywod a merched ar lefel Cymru gyfan	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Medi 2015
19	Asesu'r strwythurau mewnol ar gyfer ymdrin â cham-drin domestig, trais er anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Ystyried y strwythur mwyaf priodol ar gyfer dioddefwyr a chyfleu hyn i bartneriaid yn y sector gwirfoddol	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau, Amddiffyn y Cyhoedd)	Mai 2015
20	Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi o ran hyfforddiant cam-drin domestig ar gyfer swyddogion a staff. Sicrhau bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar y dioddefwr ac yn cynnwys sgiliau iaith a chyfathrebu, yn ogystal â mewnbwn gan ddioddefwyr ac arbenigwyr	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd, Gwasanaethau Dysgu a Datblygu)	Mai 2015
21	Gweithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu dulliau o fesur bodlonrwydd dioddefwyr o ran cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched	Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Mai 2015

Annog Atal

Annog Atal	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Cwblhau
22 Meithrin cysylltiadau â chymunedau lleiafrifol ac ysgolion mewn ardaloedd diffiniedig er mwyn datblygu negeseuon eglur am anffurfio organau cenhedlu benywod, trais er anrhydedd a phriodas dan orfod. Defnyddio swyddogion priodol a'r sector gwirfoddol i ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol penodol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.	Heddlu De Cymru (Cyfiawnder a Phartneriaethau)	Mai 2017
23 Comisiynu adolygiad o lenyddiaeth o ran rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr gan ddefnyddio ein contract presennol â phartner academiaidd	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Rhagfyr 2014
24 Cysylltu â'r gwaith ar raglenni ar gyfer cyflawnwyr sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Prawf, Rheoli Troseddau Integredig (IOM) Cymru a charchardai de Cymru, er mwyn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio canfyddiadau'r canlyniadau ledled de Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd)	Hydref 2015
25 Datblygu Cynlluniau Cyfathrebu i hysbysu'r cyhoedd am drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys ffyrdd o adrodd, y cymorth sydd ar gael, Cyfraith Clare a'r neges gref fod pob math o drais yn erbyn menywod a merched yn anghywir	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (Cysylltiadau Corfforaethol, Amddiffyn y Cyhoedd, Cyfiawnder a Phartneriaethau)	O fis Mai 2014 - 2017
26 Gweithio gyda Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a Llywodraeth Cymru ar annog ysgolion i ddewis cyflwyno modiwlau yn ymwneud â cham-drin domestig a chydsyniad rhywiol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (Amddiffyn y Cyhoedd, Cyfiawnder a Phartneriaethau)	Mai 2016

Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer

Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched 2014 - 2017



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru

